OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1444 (Cy. 152)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Gyswllt Tua'r Gogledd yng Nghyfnewidfa Coryton, Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2015

*Gwnaed* *11 Mehefin 2015*

*Yn dod i rym* *15 Mehefin 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) ("y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984[(1)] ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Mehefin 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Gyswllt Tua'r Gogledd yng Nghyfnewidfa Coryton, Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2015.

**Cyfyngiad**

**2.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd sy'n ffurfio ffordd gyswllt neilltuedig tua'r gogledd yr A470 yng nghyfnewidfa Coryton yn Ninas a Sir Caerdydd sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cyfnewidfa Coryton hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r de yr A470.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 11 Mehefin 2015

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.